cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Maintenance Loan Request Form – 2024/25

**The quickest and easiest way to let us know how much Maintenance Loan you want is online. Just log into your account at www.studentfinancewales.co.uk**

# Ffurflen Cais am Fenthyciad Cynhaliaeth – 2024/25

**Y ffordd gyflymaf a hawsaf i chi roi gwybod i ni faint o Fenthyciad Cynhaliaeth ydych chi eisiau yw ar-lein. Ewch i fewngofnodi i'ch cyfrif yn www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Customer Reference Number:
Cyfeirnod Cwsmer: ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Forename(s):
Enw(au) cyntaf:

Surname:
Cyfenw:

Date of birth:
Dyddiad geni:
Day / Dydd ☐☐ Month / Mis ☐☐ Year / Blwyddyn ☐☐☐☐

To find out how we'll use the information you provide go to **www.studentfinancewales.co.uk/privacynotice** to read our Privacy Notice before completing this form.

I gael gwybod sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch, ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd** i ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn llenwi'r ffurflen hon.

**Amount of Maintenance Loan you would like to apply for:**
**Faint o Fenthyciad Cynhaliaeth yr ydych eisiau ymgeisio amdano:**

Maximum available to you:
Yr uchafswm ar gael i chi: ☐ Tick / Ticiwch

If you wish to apply for less than the maximum available to you, please state the amount:
Os hoffech ymgeisio am lai na'r uchafswm sydd ar gael i chi, nodwch y swm os gwelwch yn dda: £

If you started your course on or after 1 August 2018, the way we'll work out your Maintenance Loan has changed. We'll work out how much Welsh Government Learning Grant (WGLG) you can get first then the rest of your student finance will be awarded as a Maintenance Loan. Your Maintenance Loan will be based on your household income and the number of credits you're studying this year (credits only apply to part-time students). If you request more Maintenance Loan than you're entitled to, we'll award you the lower amount.

Os dechreuoch eich cwrs ar neu wedi 1 Awst 2018, mae sut fyddwn ni'n cyfrifo eich Benthyciad Cynhaliaeth wedi newid. Byddwn yn cyfrifo faint o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLlC) allwch chi ei gael yn gyntaf, ac yna bydd gweddill eich cyllid i fyfyrwyr yn cael ei ddyfarnu fel Benthyciad Cynhaliaeth. Bydd eich Benthyciad Cynhaliaeth yn seiliedig ar incwm eich cartref a'r nifer o gredydau rydych chi'n astudio eleni (mae credydau'n berthnasol i fyfyrwyr rhan-amser yn unig). Os byddwch yn gofyn am fwy o Fenthyciad Cynhaliaeth nag y mae gennych yr hawl i'w gael, byddwn yn dyfarnu'r swm is i chi.

**National Insurance number / Rhif Yswiriant gwladol** ☐☐☐☐☐☐☐☐☐

**Bank or Building Society Account details**

Give the details of the bank or building society account into which you want to receive your payments. **This account must be in your own name.**

**Manylion Cyfrif Banc neu Gymdeithas Adeiladu**

Rhowch fanylion y cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu lle'r ydych eisiau derbyn eich taliadau. **Rhaid i'r cyfrif fod yn eich enw chi.**

Sort code / Côd didoli ☐☐-☐☐-☐☐

Account number / Rhif y cyfrif ☐☐☐☐☐☐☐☐

Building ~~society~~ roll number / Rhif rôl cymdeithas adeiladu ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

## Contact details

Please give the names and addresses of two contacts. The contacts you give **should live at different addresses** and one of them must be a relative, partner, guardian or next of kin. These people will only be contacted if, for example, you move address and do not inform us. You **must** inform your contacts that you are providing us with their contact details.

## Manylion cyswllt

Rhowch enwau a chyfeiriadau dau gyswllt. Mae'n rhaid iddynt fod yn **byw mewn cyfeiriadau gwahanol** ac mae'n rhaid i un ohonynt fod yn berthynas, yn bartner, yn warcheidwad neu'n berthynas agosaf i chi. Ni fyddwn yn cysylltu â'r bobl hyn oni bai eich bod, er enghraifft, yn newid cyfeiriad a heb roi gwybod i ni. Mae'n **rhaid** i chi roi gwybod i'ch cysylltiadau eich bod yn darparu eu manylion cyswllt i ni.

| | |
|---|---|
| Forename(s):<br>Enw(au) cyntaf: | Forename(s):<br>Enw(au) cyntaf: |
| Surname:<br>Cyfenw: | Surname:<br>Cyfenw: |
| Relationship to you:<br>Perthynas â chi: | Relationship to you:<br>Perthynas â chi: |
| Address:<br>Cyfeiriad: | Address:<br>Cyfeiriad: |
| | |
| Postcode:<br>Côd post: | Postcode:<br>Côd post: |
| Country:<br>Gwlad: | Country:<br>Gwlad: |
| Phone number:<br>Rhif ffôn: | Phone number:<br>Rhif ffôn: |

**You MUST now read and sign the following terms and conditions.**

### Terms and conditions

These terms and conditions ("terms") and applicable legislation apply to all of the student finance available to students for the academic year 2024/25.

I understand that I must read the specific terms about the student finance products available because they will affect me if I apply for them at any time in this academic year.

### Loan Contract

1. I confirm I have read and understood these terms and A Guide to Terms and Conditions available at **www.studentfinancewales.co.uk/terms-and-conditions**
2. I confirm that to the best of my knowledge and belief, the information I have provided is true and complete. If it is not, I understand that I may not receive student finance, any support I have had may be withdrawn and I could be prosecuted.
3. I understand that student finance is provided to me by the Welsh Ministers (the "Lender") which includes any persons acting on their behalf and any replacement(s) under section 23(4) of the Teaching and Higher Education Act 1998 as amended or replaced from time to time (the "Act").
4. I understand these terms, the Act and the regulations made under section 22 of the Act will apply to any student finance provided to me by the Lender.
5. I understand that "student finance" in these terms means financial support by way of grant(s) and/or loan(s) made by the Lender under the regulations.
6. I understand that the Student Loans Company Limited ("SLC") carries out certain functions on behalf of the Lender.

### My Obligations

7. I understand that if I have:
   (i) reached the age of 18 years; and
   (ii) have entered into agreement(s) for a loan under section 22 of the Act before I reached the age of 18 years,

   I am agreeing to "ratify" any and all such student loans by signing these terms. This means that I confirm I entered into agreement(s) with the Lender and agree to the terms of any such previous agreement(s). If I have reached the age of 18 and refuse to "ratify" any previous agreement(s), I understand that I will not be eligible to get any further student finance under the regulations
8. I agree to give SLC any information they need in support of this application for student finance and/or to seek repayment.
9. I agree to tell SLC immediately if my circumstances change in any way that might affect my entitlement to student finance. I understand that if I do not do this I may not get any further payments and I may have to repay the student finance I have already received. I agree that from the date I submit my student finance application until my loan(s), together with all and any interest, penalties and charges which apply, is fully repaid I must tell SLC about any changes in my personal details (including my National Insurance number) and contact details I have provided.
10. I agree that if I get an overpayment of student finance, I need to repay this in full and that any overpayment may be taken from any future entitlement to student finance.
11. I agree that I will repay the Lender any loan(s), together with all and any interest, penalties and charges which apply. I understand that this repayment will be due by me to the Lender as a debt. If I breach any of the terms of my loan, I agree to pay any charges and penalties which apply under the Act and the regulations. I understand that I will repay my loan(s) through the United Kingdom ("UK") tax system and/or I may repay SLC directly. If I live abroad, I will repay my loan(s) to SLC directly.
12. I agree that any loan(s) made to me in accordance with the regulations once my application is accepted by the Lender is a/are contract(s) between me and the Lender. I understand that I am liable for my loan(s) and will be charged interest from the first payment of the loan advance by the Lender.
13. I agree to tell SLC if I leave the UK to live outside the UK or if for any other reason I am outside the UK tax system for more than three months.

### Legal Action and Applicable Law

14. In the event of any legal action, I agree that the laws of England and Wales will apply and that the courts of that part of the UK will hear any legal action. If my address is outside the UK the laws of the part of the UK where my education provider is situated will apply and the courts of that part of the UK will hear any legal action. I agree that the Lender has the right to take legal action against me in any other court with jurisdiction.

### Sharing Information

15. If I am in breach of these terms and/or the regulations I agree that the Lender may share information held about me and my account with third parties, including the government or a government agency of another country, who may help to locate me and/or help take action to recover any payments I owe.
16. I confirm where I have provided any personal information about any other person in my student finance application, I have done so with their consent.
17. I understand that SLC will process my personal data in line with the Privacy Notice available at **www.studentfinancewales.co.uk/privacy-notice** which may be updated from time to time.

**Your signature:** X

**Today's date:** Day ☐☐ Month ☐☐ Year ☐☐☐☐

**Nawr mae'n RHAID i chi ddarllen a llofnodi'r amodau a thelerau sy'n dilyn.**

## Telerau ac amodau

Mae'r telerau ac amodau ("telerau") hyn a deddfwriaeth berthnasol yn weithredol o ran yr holl gyllid i fyfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/25

Rwy'n deall bod yn rhaid i mi ddarllen y telerau penodol ynghylch cynnyrch cyllid i fyfyrwyr ar gael oherwydd y byddant yn effeithio arnaf os byddaf yn ymgeisio amdanynt ar unrhyw adeg yn y flwyddyn academaidd hon.

**Rwy'n deall y gallai fy nghais am gyllid i fyfyrwyr gael ei ohirio oni bai fy mod yn llofnodi a dyddio'r telerau hyn.**

## Contract y Benthyciad

1. Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y telerau hyn a bod Canllaw i Amodau a Thelerau ar gael ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/telerau-ac-amodau**
2. Rwy'n cadarnhau fod yr wybodaeth rwyf wedi ei darparu, hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred, yn wir a chyflawn. Os nad yw, rwy'n deall ei bod yn bosibl na fyddaf yn derbyn cyllid i fyfyrwyr, y bydd unrhyw gefnogaeth yr wyf wedi ei chael yn cael ei thynnu yn ôl ac y gellir fy erlyn.
3. Rwy'n deall fod cyllid i fyfyrwyr yn cael ei ddarparu i mi gan Weinidogion Cymru (y "Rhoddwr Benthyciadau") sy'n cynnwys unrhyw bersonau yn gweithredu ar eu rhan ac unrhyw amnewidiad(au) dan adran 23(4) Deddf Addysg Uwch 1998 fel y'i diwygiwyd neu amnewidiwyd o bryd i'w gilydd (y "Ddeddf").
4. Rwy'n deall y bydd y telerau hyn, y Ddeddf a'r rheoliadau a wneir dan adran 22 y Ddeddf yn berthnasol i unrhyw gyllid i fyfyrwyr a roddir mi gan y Rhoddwr Benthyciadau.
5. Rwy'n deall bod "cyllid i fyfyrwyr" yn y telerau hyn yn golygu cefnogaeth ariannol trwy grant(iau) ac/neu fenthyciad(au) a wneir gan y Rhoddwr Benthyciadau dan y rheoliadau.
6. Rwy'n deall bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ("SLC") yn cyflawni swyddogaethau penodol ar ran y Rhoddwr Benthyciadau.

## Fy Ymrwymiadau

7. Rwy'n deall os ydw i:
   (i) wedi cyrraedd 18 oed; ac
   (ii) fy mod wedi mynd i gytundeb(au) am fenthyciad dan adran 22 y Ddeddf cyn i mi gyrraedd 18 oed,

   fy mod yn cytuno i "ddilysu" unrhyw a phob benthyciad myfyriwr trwy lofnodi'r telerau hyn. Mae hyn yn golygu fy mod yn cadarnhau fy mod wedi mynd i gytundeb(au) gyda'r Rhoddwr Benthyciadau ac yn cytuno i delerau unrhyw gytundeb(au) blaenorol o'r fath. Os ydw i wedi cyrraedd 18 oed ac yn gwrthod "dilysu" unrhyw gytundeb(au) blaenorol, rwy'n deall na fyddaf yn gymwys i gael unrhyw gyllid i fyfyrwyr pellach dan y rheoliadau.
8. Rwy'n cytuno i roi unrhyw wybodaeth i SLC y bydd angen i gefnogi'r cais yma am gyllid i fyfyrwyr ac/neu i gasglu ad-daliad.
9. Rwy'n cytuno i roi gwybod i SLC ar unwaith s bydd fy amgylchiadau'n newid mewn unrhyw fodd a allai effeithio ar fy hawl i gyllid i fyfyrwyr. Os na fyddaf yn gwneud hyn deallaf na fyddaf efallai yn cael taliadau pellach a bod posibilrwydd y bydd yn rhaid i mi ad-dalu'r cyllid i fyfyrwyr yr ydw i eisoes wedi'i gael. Rwy'n cytuno o'r dyddiad y byddaf yn cyflwyno fy nghais am gyllid i fyfyrwyr nes bydd fy menthyciad(au), ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a thaliadau sy'n berthnasol, yn cael ei ad-dalu yn llawn, bod yn rhaid i mi hysbysu SLC am unrhyw newidiadau yn fy manylion personol (gan gynnwys fy rhif Yswiriant Gwladol) a'r manylion cyswllt a roddais.
10. Rwy'n cytuno os byddaf yn cael gordaliad o gyllid i fyfyrwyr, mae angen i mi ei ad-dalu'n llawn ac y gellir casglu unrhyw ordaliad o unrhyw gais pellach am gyllid i fyfyrwyr.
11. Rwy'n cytuno y byddaf yn ad-dalu'r Rhoddwr Benthyciadau unrhyw fenthyciad(au), ynghyd â phob ac unrhyw log, gosbau a thaliadau sy'n berthnasol. Rwy'n deall y bydd yr ad-daliad hwn yn ddyledus gennyf fi i'r Rhoddwr Benthyciadau fel dyled. Os byddaf yn torri unrhyw un o delerau fy menthyciad, rwy'n cytuno i dalu unrhyw gostau a chosbau perthnasol dan y Ddeddf a'r rheoliadau. Rwy'n deall y byddaf yn ad-dalu fy menthyciad(au) trwy system dreth y Deyrnas Unedig ("DU") ac/neu y gallaf ad-dalu SLC yn uniongyrchol. Os ydw i'n byw dramor, byddaf yn ad-dalu fy menthyciad(au) i SLC yn uniongyrchol.
12. Rwy'n cytuno fod unrhyw fenthyciad(au) a wneir i mi yn unol â'r rheoliadau unwaith y derbynnir fy nghais gan y Rhoddwr Benthyciadau yn gytundeb(au) rhyngof fi a'r Rhoddwr Benthyciadau. Rwy'n deall fy mod yn atebol ar gyfer fy menthyciad(au) ac y codir llog arnaf o daliad cyntaf y benthyciad gan y Rhoddwr Benthyciadau.
13. Rwy'n cytuno i roi gwybod i SLC os byddaf yn gadael y DU i fyw tu allan i'r DU neu os am ba bynnag reswm arall y byddaf tu allan i system dreth y DU am fwy na thri mis.

## Camau Cyfreithiol a Deddfau Perthnasol

14. Os bydd galw am unrhyw achos cyfreithiol, rwy'n cytuno mai deddfau Cymru a Lloegr fydd yn weithredol ac y bydd y llysoedd yn y rhan honno o'r DU yn clywed unrhyw achos cyfreithiol. Os yw fy nghyfeiriad tu allan i'r DU, bydd deddfau'r rhan o'r DU ble mae fy narparwr addysg wedi ei leoli yn berthnasol a bydd y llysoedd yn y rhan honno o'r DU yn clywed unrhyw achos cyfreithiol. Rwy'n cytuno bod gan y Rhoddwr Benthyciadau'r hawl i gymryd camau cyfreithiol yn fy erbyn mewn unrhyw lys arall gydag awdurdod.

## Rhannu Gwybodaeth

15. Os ydw i'n torri'r telerau hyn ac/neu'r rheoliadau, rwy'n cytuno y gall y Rhoddwr Benthyciadau rannu gwybodaeth amdanaf a fy nghyfrif gydag unrhyw drydydd parti yn cynnwys y llywodraeth neu asiantaeth llywodraeth gwlad arall, allai helpu fy lleoli ac/neu helpu gweithredu i adfer unrhyw daliadau sy'n ddyledus.
16. Rwy'n cadarnhau ble rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth bersonol ynghylch unrhyw berson arall yn fy nghais am gyllid i fyfyrwyr, fy mod wedi gwneud hynny gyda'i ganiatâd neu ei chaniatâd.
17. Rwy'n deall y bydd SLC yn prosesu fy nata personol yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd sydd ar gael ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd** a allai gael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd.

**Eich llofnod:** X

**Dyddiad heddiw** Dydd Mis Blwyddyn

SFW/MLR/2425